
# Presentation by historian

## Glyn Roberts

## August 2019



# Melin Aberdaron.

Yr wyf am ddechrau gyda Melin Aberdaron am ddau reswm, am fod Aberdaron yn dod gyntaf yn nhrefn yr wyddor ac am mai Melin Aberdaron yw yr un sydd yn y cyflwr gorau yn yr ardal dan sylw ac am fod y mwyafrif o offer y felin yn aros yn eu sefyllfa gwreiddiol. Wrth gychwyn gyda Melin Aberdaron gallaf ddangos y gwahanol offer a nodweddion oedd yn bresennol mewn melin ŷd yn nechrau yr ugeinfed ganrif.

Mae y ddogfen gynharaf i mi ei gweld, sydd yn crybwyll Melin Aberdaron, yn dyddio yn ôl i 1252. Mae'r ddogfen yn weithred rhwng Abaty Enlli, Eglwys Aberdaron a Dafydd ap Gruffudd, Arglwydd Cymydfaen (brawd Llewelyn Tywysog Cymru). Gan fod y ddogfen wreiddiol wedi cael ei ysgrifennu'n wreiddiol mewn Lladin ac wedi ei chyfieithu i'r Saesneg ac wedyn i'r Gymraeg mae rhannau ohoni a rhai enwau yn anodd iawn i'w deall. Er hynnu mae yn ddogfen ddiddorol iawn, yn rhestru holl ddaliadau Abaty Enlli ar y tir mawr ac yn nodi faint oedd pawb yn gorfod dalu mewn rhent a threthi i'r Abaty ac i Arglwydd Cymydfaen.

Un o'r enwau cyfarwydd oedd Trefgraig oedd yn talu 15 crannog, ei hanner o wenith da a'r hanner arall o flawd a 27d. 'Roedd pawb oedd yn dal tir o dan yr Abadaeth i wneud tri diwrnod o waith yn yr Hydref. Pawb oedd yn berchen ceffyl i gludo dau lwyth o dir yr Abadaeth i Cwrt y Cil yn yr Haf. Y rhai eraill i lanhau ffos y felin yn Aberdaron. Nid oedd meibion Trehaearn Voel na Pwlldefaid yn gorfod gwneud dim gwaith. Hefyd 'roedd angen talu trethi i Arglwydd Cymydfaen, y cryfaf a mwyaf cyfoethog 4d, a 4 sachaid o flawd a dau grannog o geirch. Y gwyr llai cyfoethog i dalu 2d, a dau sachaid o flawd ac un crannog o geirch. Hefyd y trydydd dosbarth o ddynion i dalu 1d ac un sachaid o flawd. Hefyd y dynion tlawd na allant roi cymaint i dalu 1d neu ei werth. Pob tŷ sydd yn cadw ieir i roi un iar.

Yn 1291 gwnaeth Esgob Bangor arolwg o eiddo Abaty Enlli ar ran y Pab Nicholas IV. Yr oedd yr Abaty yn berchen tiroedd yn, Uwchseley, Isseley, Ultradaron a Threforfa ac yn derbyn degwm o Eglwysi, Bodferin, Llanfaelrhys, Bryncroes, Eglwyscadell, Llangwnadl a Tudweiliog. Hefyd pedair melin oedd yn werth 40/- ac hefyd yn gwerthu gwnhingod oedd yn werth 30/- y flwyddyn. Yn yr amser yma 'roedd yr Abaty yn berchen 24 o wartheg a 120 o ddefaid.

Mae arolwg a wnaed gan Edward 3ydd yn 1352 yn rhestru pum melin yn naliadaeth yr Abaty, Aberdaron, Bodrydd, Melin Newydd, Melin wyrion Goridir a melin yng ngwely Rhys ap Seisyll. Mae yn debyg mai ym Mhenllech oedd Melin wyrion Goridir ac mai tua safle Bodwrdda heddiw oedd gwely Rhys ap Seisyll.

Yn 1537 diddymodd Harri 8ed yr holl Fynachlogydd trwy'r wlad yn cynnwys Abaty Enlli a dwyn eu heiddo a'u tiroedd. Mae dogfen yn yr Archifdy Cenedlaethol yn Llundain wedi ei ddyddio 22 Ebrill 1539, yn nodi fod "Ye Lord

King" (Harri 8ed) yn gosod "A water mill in Aberrdaron, formerly among the possessions of the Monastry of Bardsey" i Evan Gwyne am flwyddyn.

Yn oes y frenhines Elizabeth 1af prynnodd Stad Cefnamwlch lawer o dir yn Aberdaron, yn cynnwys y felin a hefyd yr hawl i dderbyn Degwm plwyfi Aberdaron, Bryncroes a Nefyn.

Er fy mod newydd ddweud mai Melin Aberdaron yw y felin yn y cyflwr gorau yn y rhan yma o Lŷn mae wedi dirywio yn arw yn ddiweddar, gyda tyllau yn y tô, ac mae'r olwyn ddŵr wedi diflannu, yr echel yn unig sydd ar ôl.

Mae y felin yn Aberdaron wedi ei lleoli yn y pentref ar ochr Ddeheuol i'r ffordd B4413, dros y ffordd a Becws Islyn.



Y rhan ganol yma yw yr adeilad cynharaf, gyda estyniad i'r Dwyrain oedd yn cael ei ddefnyddio fel stabl ac mae rhai o offer a ddefnyddid gyda'r ceffylau yn dal ynddi.



I'r Gorllewin mae dau estyniad wedi cael eu hadeiladu, yr estyniad Deheuol yw ystafell yr odyn sychu ŷd, ac yn yr estyniad Gogleddol y lleolid yr offer glanhau ŷd a'r peilliwr.





Mae hefyd estyniad wedi godi i'r adeilad gwreiddiol tuag at y Gogledd ac y mae y dyddiad 1851 wedi ei dorri i mewn i'r pren yma, ac mae yn ymddangos fod llygod yn broblem yn 1851 hefyd.




Hen gerdyn post yn dangos llyn y felin.



Nid oes ond yr echel ganol yn aros o'r olwyn ddŵr ond yr oedd yn ymddangos ei bod tua ugain troedfedd ar draws a thua llathen o led. Mae yr olwyn i'w gweld

yn eglyr yn yr hen gerdyn post yma o Aberdaron. Yr oedd yr olwyn yn troi yr olwyn gocos fawr a oedd yn ei thro yn troi dau bar o feini, cadwyn i godi sachau a'r peiriannau i lanhau'r grawn a pheillio'r blawd.




Y fraich bren oedd yn rheoli faint o ddŵr oedd yn disgyn ar yr olwyn, ac felly yn rheoli cyflymder y felin.



Olwyn gocos y pwll. “Pit Wheel”.



Yr olwyn gocos fawr neu “Great Spur Wheel”

Un o’r olwynion bychain “Stone Nut”





Yr oedd olwyn y pwll wedi ei gosod ar yr un echel ac yn troi ar yr un cyflymdra a'r olwyn ddŵr. 'Roedd yr olwyn yma yn troi olwyn lai oedd wedi ei cysylltu gyda'r olwyn gocos fawr, felly 'roedd yr echel yma yn troi yn gyflymach na'r olwyn ddŵr. 'Roedd yr olwyn gocos fawr yn troi yr olwynion bychain "stone nuts" oedd wedi eu cysylltu gyda meini uchaf y felin. Felly yr oedd cyflymder y meini yn llawer uwch na chyflymder yr olwyn ddŵr.

Mae modd symyd y treuliau isaf sydd yn cynnal y meini fel fod modd amrywio y gwagle rhwng y ddau faen ar gyfer gwahanol fath o ŷd a'r defnydd a wneid ohono. Gosodid y ddau faen yn agos iawn i falu gwenith i wneud peilliad, ond yr oeddynt yn gallu bod yn bellach oddi wrth eu gilydd i falu ceirch i'w fwydo i anifeiliaid.

Mae yn debyg fod yna lawer o waith adnewyddu ar y felin wedi digwydd yn nechrau yr 1860au. Yn Ionawr 1864 mae Mr Evans yn dwyn achos yn y llys ym Mhwllheli yn erbyn Mr Williams, Felin Aberdaron. Yr oedd Mr Evans yn honi ei fod wedi gwneud 197 o ddyddiau o waith ar y felin ac wedi bod yn Sir Fôn yn chwilio am feini newydd, yng Nghaernarfon yn edrych am waith haearn bwrw ac wedi bod ym Mhwllheli dair gwaith i chwilio am goed at y gwaith. Yr oedd Mr Evans wedi derbyn £23 – 3 – 0 ond yr oedd y cyfrif i gyd yn £32 – 16 – 08c.

Mae yn debyg fod llawer o'r offer yn y felin yn dyddio o'r amser yma, mae yr olwynion cocos etc yn edrych yn rhai gweddol ddiweddar ac o safon uchel.

Un o feini melin Aberdaron, maent yn anodd i'w gweld am eu bod yn dal yn eu blychau pren neu celwrn.



"Esgid" oedd yn ysgwyd wrth i'r meini droi ac yn rheoli faint o rawn oedd yn disgyn i'r "llygaid", y twll yng nghanol y maen uchaf.






Y pwli a'r echel a ddefnyddid i godi y sachau grawn llawn i fyny i'r llofft i gael ei falu. Wrth i'r melinydd roi pwys ar y belt 'roedd yr echel yn troi a chadwyn oedd wedi ei gosod arni yn codi'r sachau i fyny trwy "trap door" yn y llawr.







Rhannau o'r peilliwr a ddefnyddid i wahanu y blawd oddiwrth yr eisin, "bran" i gynhyrchu peilliad neu flawd gwyn.

Y brwsh oedd yn troi tu fewn i gas metel y peilliwr i wahanu'r blawd oddiwrth yr eisin.



Cas y peilliwr sydd wedi ei wneud o fetel gyda tyllau man ynddo i adael i'r blawd ddod allan a disgyn i'r cafn odditano.

Yr wyf wedi crybwyll eisioes am yr angen i sychu neu grasu y grawn cyn ei falu ac mae yr odyn yn dal ym melin Aberdaron.



O'r darlun yma gellir gweld fod dau le tan yn yr odyn, ar y chwith oedd y grat ar gyfer sychu y grawn ac ar y dde mae pobty i grasu bara.

Mae melin wedi bod yn Aberdaron ers y Canol Oesoedd, mae yn cael ei chrybwyll yn y cyfrifiad a wnaed gan y brenin Edward 111 yn 1352. Erbyn y ddeunawfed ganrif 'roedd llawer o dir ym mhlwyf Aberdaron yn perthyn i Stad Cefnamwlch. Mae dogfen yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth yn dyddio o 1717 yn rhestru y tiroedd yma oedd William Griffith, Cefnamwlch wedi eu gadael yn ei ewyllys i'w frawd John Griffith, Cefnamwlch. Mae'r tiroedd yma yn cynnwys, Deunant, Bodernabwy, Moelfre, Rhedynfa, Cilbwth, tyddyn yn naliadaeth Thomas Frederick, Cyll y Felin a Melin Aberdaron.
Mae y felin wedi bod yn gysylltiedig a fferm Cefnona er o leiaf y ddeunawfed ganrif. Tenant y Felin a Cefnona yn 1785 oedd gwr o'r enw William William ac yr oedd William ac Ellin ei wraig wedi bedyddio amryw o blant yn yr Eglwys yn Aberdaron.

| | | |
|---|---|---|
| 2/3/1785 | William | of William and Ellin Williams, Cefnona, Miller. |
| 4/6/1786 | Dorothy | of William and Ellin Williams, Cefn y Nonnau. |
| 28/ 8/1791. | John | of William and Ellin Williams, Cefn ona, Miller. |
| 30/6/1893. | Sidney | of William and Ellin Williams, Miller. |
| 9/3/1795. | Mary and | |
| | Eliza | of William and Ellin Williams, Cefnona, Miller. |

16/7/1797. Catherine of William and Ellin Williams, Cefnona, Miller.
26/10/1799. Jane of William and Ellin Williams, Miller.
31/11/1800. Hugh of William and Ellin Williams, Miller.
15/11/1804. Thomas of William and Ellin Williams, Cefnona, Miller.

Fe fu William Williams farw yn 1811 ac fe ddilynodd ei feibion, Griffith, William a Hugh ef fel melinwyr ac mae yna ddogfen ym mhapurau Stad Cefnamwlch yn dyddio yn ôl i 1811 yn nodi ail osod y felin. Mae yn debyg mai Griffith oedd y prif felinydd a'i enw ef sydd fel tenant ym map y degwm yn 1845. Bu Hugh yn gweithio ym melin Aberdaron am gyfnod ac wedyn ar ol priodi fe fu yn gweithio fel melinydd ym Melin Pentre Foelas. Yng nghyfrifiad 1861 'roedd yn wr gweddw ac yn byw yn ôl yn Cefnona ac yn felinydd gyda'i frawd yn Aberdaron. Erbyn cyfrifiad 1871 mae Hugh Williams yn felinydd yn Felin Nant, ac fe fu farw yn 1874 yn 73 oed. Erbyn 1871 eu chwaer Elizabeth oedd yn gyfrifol am y fferm a'r felin gyda chwech o weision a morwynion, i gyd yn neiant neu nithoedd iddi, mae yn debyg mai plant ei chwioryd oeddynt oherwydd nid yw yn ymddangos fod gan yr un o'r brodyr blant.
Ar ôl i Elizabeth farw Margaret Jones, ei nith, yn enedigol o Ynys Enlli oedd yn gyfrifol am y fferm a'r felin. Erbyn 1891 'roedd Hugh Jones ei nai hithau yn gweithio'r felin ac mae yn debyg y bu ef yng ngofal y felin tan ei farwolaeth yn 1953.

Hugh Jones yn mynd adref i nol cinio.
Darlun o hen gerdyn post wedi ei bostio yn 1928.





Hugh Jones yn ei ddillad
Dydd Sul.



Hugh Jones yn ei ddillad gwaith yn
yn sefyll o flaen y felin.



Caseg wen y felin yn cael diod yn yr afon.

Dyddiad ar y llun Awst 1935.

Fel yr wyf wedi crybwyll yn barod 'roedd Cefnona a'r felin yn ran o Stad Cefnamwlch ynghyd ac amryw o ffermydd eraill ym mhlwyf Aberdaron.
Yn 1843 'roedd Stad y Penrhyn wedi prynnu hen stadau Meillionydd a Methlem a thrwy hynnu wedi dod i berchen llawer o ffermydd yn Aberdaron a ffermydd Towyn a Monachdy yn Nhydweiliog.
Yn 1855 cyfnewidiodd Charles Wynne Griffith Wynne, Cefnamwlch rai o'i diroedd yn Aberdaron oedd yn cynnwys Cefnona, Nant Nona a'r Felin gyda'r Arglwydd Penrhyn am Towyn a Monachdy yn Nhudweiliog.
Felly Stad y Penrhyn oedd yn berchen Melin Aberdaron hyd 1907 pan wnaeth Stad y Penrhyn arwerthiant o lawer o'u heiddo yn Llŷn.